



Cyngor Sir Penfro

Cynllun Datblygu Lleol

Adroddiad Monitro Blynyddol – blwyddyn 11

1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024

This item is also available in English / Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd

Cynnwys

Crynodeb o Adroddiad Monitro Blynyddol Cyngor Sir Penfro 2023-2024	3
Atodiad 1 – Fframwaith Monitro'r CDLI	10
Atodiad 2 – Tai Cronnus a Gwblhawyd a Thafwybr Tai	47
Atodiad 3 – Fframwaith Monitro Arfarnu Cynaliadwyedd	58
Atodiad 4 – Dyraniadau y mae gofyn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Iefel prosiect arnynt	69
Atodiad 5 – Dadansoddiad o'r Tai a Gwblhawyd 2013-2024 yn ôl lleoliad	75
Atodiad 6 – Adborth gan Randdeiliaid	81

Crynodeb o Adroddiad Monitro Blynyddol Cyngor Sir Penfro 2023 - 2024

- 1) Mabwysiadodd Cyngor Sir Penfro y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ym mis Chwefror 2013. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) bob blwyddyn, gyda mewnbwn Rhanddeiliaid, a chyflwyno hwn i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref. Mae'r AMB yn seiliedig ar y targedau a'r sbardunau a nodir yn Atodiad 5 o'r CDLI – mae'r rhain yn asesu sut mae'r Cynllun yn gweithio ac a oes unrhyw feysydd sy'n peri pryder y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach.
- 2) Oedwyd Adolygiad y CDLI er mwyn ystyried goblygiadau'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ionawr 2021, gyda'r canllawiau hyn yn cyfeirio at lygredd ffosffad yn rhannau nad ydynt yn llanwol o afonydd gwarchodedig Cymru. Mae hynny'n cynnwys dalgylchoedd afon Teifi ac afon Cleddau yn Sir Benfro. Diwygiwyd y canllawiau hyn nifer o weithiau ar ôl hynny. Mae goblygiadau'r canllawiau hyn yn arwyddocaol ond mae ffyrdd bellach yn cael eu canfod i symud CDLI 2, Cynllun Adnau 2 ymlaen heb ddileu'n llwyr ddyraniadau drafft a nodwyd yng Nghynllun Adnau 1 CDLI 2 yn 2020. Cynorthwywyd hynny gan yr adolygiad o Drwyddedau Amgylcheddol mewn Gwaith Trin Dŵr Gwastraff gan CNC a chynigion buddsoddi newydd gan Dŵr Cymru Welsh Water, er y bydd angen atebion tymor hwy o hyd. Serch hynny, yng nghyfnod monitro blwyddyn 12, mae'n werth nodi bod CDLI 2, Cynllun Adnau 2 wedi'i gymeradwyo mewn cyfarfod Cyngor Eithriadol ar 13 Medi 2024 ac y bu ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar ei gynnwys, a gynhaliwyd rhwng 21 Hydref 2024 a 16 Rhagfyr 2024. Mae CDLI 2, Cynllun Adnau 2 yn Gynllun diwygiedig o'i gymharu â'r hyn a gyhoeddwyd yn 2020, gan ystyried popeth sydd wedi digwydd ers 2020. Mae'r Awdurdod wedi ystyried y tueddiadau a'r wybodaeth fonitro yn yr AMB blaenorol a, lle bo'n briodol, byddant yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Adnau 2, ond ni fydd yr wybodaeth bellach yn yr adroddiad hwn yn cael ei chwblhau mewn pryd i hyn ddigwydd eto, er y gallai ei gasgliadau lywio camau diweddarach proses y Cynllun, gan gynnwys Archwiliad annibynnol.
- 3) Cynhaliwyd yr Arolwg Cyflogaeth ddiwethaf yn 2022, ond ni fu adnoddau staff ers hynny i brosesu'r canlyniadau. Yr Arolwg Cyflogaeth diwethaf a gyhoeddwyd oedd yr Arolwg ar gyfer 2019. Cynhaliwyd arolygon tai llawn gan ddefnyddio cofnodion rheoli adeiladu ac ymweliadau safle yn 2022, 2023 a 2024. Cynhaliwyd yr arolwg manwerthu diwethaf yn hydref 2023.
- 4) Mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â gwaith ar ddwy ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi CDLI 1 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ymgynghorodd ar CCA Asesiad Cymeriad Tirwedd a CCA Cymeriad Morlun rhwng mis Chwefror a mis

Mai 2023, a'r cyntaf yn ddogfen CSP yn unig a'r ail yn ddogfen ar y cyd ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mabwysiadwyd dogfen y CCA Cymeriad Morlun gan CSP ar 2 Hydref 2023 (a chan APCAP ar 20 Medi 2023). Ni fu digon o adnoddau staff ar gael i fwrw ymlaen â'r CCA Asesu Cymeriad Tirwedd yn dilyn ymgynghoriad 2023, gyda CDLI 2, Cynllun Adnau 2 yn cael blaenoriaeth.

Dyma'r casgliadau allweddol o'r adroddiad hwn:

- Mae cyfrannau'r caniatâd tai a roddwyd yn is na'r canrannau targed ar gyfer cymeradwyaeth mewn Trefi Hyb. Mae hyn bellach wedi cwrdd â sbardun 3 blynedd ar gyfer adolygiad sef 39% yn 2022-2023, 38.2% yn 2021-2022 a 25.6% yn 2020-2021. Mae'r ffigur hwn wedi adfer i 50% yn AMB 2023-2024, ond mae islaw'r trothwy o hyd. Cafwyd gostyngiad sylweddol hefyd yn nifer yr unedau preswyl newydd sy'n cael caniatâd cynllunio yn gyffredinol ers AMB 2020-2021. Golyga hyn y gall ychydig o safleoedd bellach gael dylanwad mawr ar ganran yr unedau preswyl sy'n cael eu caniatáu ar wahanol lefelau'r hierarchaeth aneddiadau.
- Cyrhaeddwyd sbardunau mewn perthynas â'r dyraniadau cyflogaeth strategol, heb unrhyw ddatblygiad eto ar safleoedd allweddol yn Blackbridge a Threcŵn. Ond, mae rhywfaint o gynnydd ar safleoedd fel Parc Busnes Llwynhelyg a Pharc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, Doc Penfro. Mae asesiad o'r angen am safleoedd cyflogaeth strategol ar gyfer Adolygiad y CDLI wedi'i nodi yn yr Astudiaeth Economaidd Dwy Sir wedi'i diweddaru (2022) ac mae hyn yn dangos angen hirdymor parhaus am safleoedd strategol.
- Dengys y canlyniadau ar gyfer AMB blwyddyn 11 mewn perthynas â pherygl llifogydd fod yr holl geisiadau a gymeradwywyd ond un yn cydymffurfio â gofynion polisi TAN 15 / polisi GN.1 y CDLI (maen prawf 7). Yr eithriad oedd cynnig i aildddefnyddio hen safle garej a ddatblygwyd yn flaenorol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys defnydd A3 i'r llawr gwaelod a thair fflat defnydd preswyl C3 i'r llawr cyntaf a'r ail lawr, yn y Cwm, Abergwaun. Ystyrir bod y defnydd A3 yn ddatblygiad llai agored i niwed mewn cyd-destun perygl llifogydd, ond mae'r cynigion defnydd preswyl C3 ar gyfer math o ddatblygiad sy'n hynod agored i niwed. Felly, ystyriwyd nad oedd y cynnig yn cydymffurfio â TAN 15 nac ychwaith bolisi GN.1 y CDLI (maen prawf 7). Cyflwynodd yr ymgeisydd Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd a chadarnhaodd CNC y gellid lliniaru canlyniadau llifogydd yn yr achos hwn. Felly, cymeradwywyd y cynnig yn amodol er gwaethaf y mater perygl llifogydd. Cyfeirir ymhellach at y cais hwn mewn mannau eraill yn yr AMB.
- Dangosodd Arolwg Manwerthu 2023 unwaith eto fod lefelau gwacter uwch na chyfartaledd y DU ym mhob canol tref yn Sir Benfro, ar wahân i Arberth a Marina Aberdaugleddau. Gostyngodd y cyfraddau gwacter o 30% i 21% yn Aberdaugleddau ac o 5% i 3% yn Arberth. Arhosodd y cyfraddau yr un fath yn Noc Penfro (19%) ac Abergwaun (17%). Cynyddodd y cyfraddau gwacter yn Hwlfordd (21% i 25%) a Phenfro (15% i 20%). Mae gwaith a ariennir gan y Rhaglen Trawsnewid Trefi i atal dirywiad canol trefi ar y gweill yn Hwlfordd, Abergwaun, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro.

- Dangosodd Arolwg Manwerthu 2023 fod canran y ffyrntiad manwerthu cynradd mewn defnydd A1 wedi gostwng yn is na'r targed o 66% yn Abergwaun, Arberth a Phenfro. Pan ystyrir cyfraddau gwacter, mae pob canolfan ar wahân i Aberdaugleddau a Marina Aberdaugleddau yn disgyn yn is na'r targed. Mae'r Cyngor yn ailystyried rôl ac effeithiolrwydd ffyrntiau cynradd ac eilaidd fel rhan o adolygiad y CDLI.
- Mae Cynllun Gwelliannau Redstone Cross a Ffordd Osgoi Llanddewi Felffre cefnffordd A40 Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo ac yn agosáu at ei gwblhau. Bydd hyn yn dwyn buddion i draffig ffyrdd sy'n defnyddio porthladd Abergwaun a hefyd Tref Sirol Hwlfordd ac aneddiadau eraill yn agos at goridor ffordd yr A.40, ac yn cymryd traffig strategol allan o bentref Llanddewi Felffre ei hun.
- Adeiladwyd 283 o gartrefi yn 2023-2024, o gymharu â 367 o gartrefi yn 2022-2023 a 338 yn 2021-2022. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na ffigur 2019-2020 (267) ond yn is na lefelau 2018-2019 (419). Y gyfradd adeiladu gyfartalog 10 mlynedd yn 2009-2019 (cyn Covid) oedd 379 y flwyddyn; mae'r arolwg diweddaraf felly'n awgrymu bod adeiladu tai yn 2023/24 wedi gostwng yn ôl i sefyllfa ymhell is na'r cyfartaledd cyn Covid, er bod y duedd yn y blynyddoedd diwethaf wedi codi gobeithion yn flaenorol y gallai adferiad i lefelau cyn-Covid fod ar fin digwydd.
- Mae'r AMB hwn wedi nodi rhai newidiadau mewn perthynas â'r safleoedd tai strategol. Mae Slade Lane South a'r rhan fwyaf o Slade Lane North wedi newid perchnogaeth; y perchnogion newydd yw Pobl a Llywodraeth Cymru ar safle'r De a Llywodraeth Cymru yn unig ar safle'r Gogledd (ac eithrio'r ardal lai o faint sy'n eiddo ar wahân i Hill West Ltd). Deallir bod Pobl yn bwriadu bwrw ymlaen â chamau 1 a 2 y datblygiad tai ar safle'r De, gyda cham 1 yn cael caniatâd Materion a Gadwyd yn Ôl a'r gwaith adeiladu bellach wedi dechrau. Disgwylir cais Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer cam 2 yn fuan. Cwblhawyd elfen fechan o safle Slade Lane North gan Hill West Ltd, ond mae gweddill y safle'n disgwyl cael ei ddatblygu.
- Ym Maesgwynne, mae'r rhan o'r safle a elwir yn Parc Loktudi wedi'i datblygu, ond mae rhannau eraill o'r safle heb eu datblygu. Fodd bynnag, yn ystod blwyddyn 10 yr AMB rhoddwyd caniatâd cynllunio i ddatblygu 50 o gartrefi ar dir ger Clos-y-Bigney, sef cynnig tai fforddiadwy 100% sy'n cael ei ddatblygu gan Gymdeithas Tai Wales & West. Fel y nodwyd o'r blaen, cafodd y dyraniad tai ym Maesgwynne ei ad-drefnu ar gyfer Cynllun Adnau CDLI 2 yn 2020 a bydd cynigion ar gyfer cyfanrwydd y safle hwn yn cael eu hystyried ymhellach ynghyd ag ailadrodd yr ymgynghoriad cam Adneuo sydd i ddod, a fydd yn seiliedig ar Gynllun diwygiedig.

- Dyrannwyd safle Shoals Hook Lane yn Hwlfordd ar gyfer datblygiad preswyl gan y CDLI presennol ond nid oes ganddo ganiatâd cynllunio tai ac fe'i dad-ddyrannwyd gan CDLI 2, Cynllun Adnau 1 yn 2020 oherwydd diffyg cynnydd tuag at gyflawni (er iddo gael ei gadw o fewn y ffin anheddu ar gyfer Hwlfordd erbyn fersiwn 2020 o CDLI 2).
- Cyrhaeddwyd y targed ar gyfer tai fforddiadwy o ran y nifer a gwblhawyd yn y flwyddyn. Ni chyrrhaeddwyd y targed 98 uned ar gyfer nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiatawyd, er bod cyfanswm nifer yr anheddau newydd sy'n cael caniatâd cynllunio wedi bod yn gostwng ers AMB 2020-2021, felly mae'r targed canrannol o 15% yn dal i gael ei gyflawni.
- Cafodd cyfraniadau ariannol o £345,950.00 ar gytundebau Adran 106 tuag at dai fforddiadwy eu harwyddo yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a cheir dadansoddiad llawn o hyn ar wefan y Cyngor.¹
- Mae'r Awdurdod wedi cyrraedd targedau a nodwyd ar gyfer darparu llety Sipsiwn a Theithwyr, fel y nodir yn y Cynllun. Cyflwynwyd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd i Lywodraeth Cymru yn hydref 2019, fe'i diwygiwyd wedyn yn 2020 a 2024 ac fe'i cymeradwywyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder yn Llywodraeth Cymru ar 24 Mai 2024 (ychydig y tu allan i gyfnod monitro 2023-2024).
- Roedd 81% o'r caniatâd a roddwyd ar gyfer tai o fewn ffiniau aneddiadau, ac yn is na'r targed o 98%. Dylid nodi bod nifer yr unedau preswyl yn gyffredinol wedi bod yn gostwng ers AMB 2020-2021. Ar yr un pryd, mae nifer yr unedau a roddwyd yng nghefn gwlad agored wedi aros yn sefydlog, felly fel canran mae hyn bellach yn cyfrif am fwy o'r unedau preswyl cyffredinol yn gyfraneddol sy'n cael eu caniatáu.
- Mae'r Amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd wedi'u hasesu, a'r wybodaeth hon wedi'i nodi yn Atodiad 3 i'r ddogfen hon. Yn y cyfnod hwn ym mywyd Cynllun CDLI1, mae'r canlyniadau monitro yn tynnu sylw'n bennaf at feysydd y gellir eu gwella trwy ddatblygu'r Cynllun amnewid.

¹<https://www.sir-benfro.gov.uk/y-cynllun-datblygu-lleol-ar-ol-adroddiad-yr-arolygydd/cytundebau-adran-106>

- Dengys gwaith Monitro Arfarnu Rheoliadau Cynefinoedd (Atodiad 4) fod y sgrinio HRA, a'r Asesiad Priodol dilynol lle bo angen, wedi digwydd ar nifer o gynigion ar lefel prosiect a gyflwynwyd yn ystod cyfnod blwyddyn 11 yr AMB. Caiff pob cais cynllunio ei sgrinio am ei effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd gwarchodedig. Mae cyhoeddi canllawiau newydd ar ffosffadau yn y rhannau nad ydynt yn llanwol o ACA afonol ym mis Ionawr 2021 wedi cael effaith sylweddol ar allu datblygwyr i gyflwyno ystod o gynigion datblygu newydd (yn bennaf ar gyfer tai ond nid yn unig) yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt. Diwygiwyd y canllawiau wedyn nifer o weithiau. Dim ond tri Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) yn Sir Benfro sy'n cynnig tynnu ffosffadau ar hyn o bryd. Yn ogystal, bydd GTDG Spittal yn gosod gallu tynnu ffosffadau o dan gynllun buddsoddi AMP 7 Dŵr Cymru Welsh Water a bydd GTDG Gorllewin Treletert a Chas-blaidd yn cael hwn o dan ffrwd ariannu ar wahân nad yw'n gysylltiedig â rhaglen AMP. Mae buddsoddiad pellach o dan AMP 8 yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, ond nid yw'r manylion yn hysbys eto. Yn Sir Benfro, yr ardaloedd yr effeithir arnynt gan ganllawiau ffosffadau CNC yw elfennau afonol (nad ydynt yn llanwol) dalgylchoedd afonydd Cleddau Wen a Chleddau Ddu a'r rhan o ddalgylch afon Teifi yn y Sir. Nid yw'r canllawiau'n berthnasol yn elfennau llanwol y systemau afon hyn, er y gallai canllawiau pellach ar gyfer ardaloedd llanwol afonydd gwarchodedig gael eu cyhoeddi yn y dyfodol. O ganlyniad i ganllawiau CNC 2021 ar gyfer elfennau nad ydynt yn llanwol yr afonydd gwarchodedig (fel y'u diweddarwyd), mae nifer y ceisiadau sy'n gofyn am HRA ar lefel prosiect wedi cynyddu'n sylweddol. Fodd bynnag, roedd rhaglen CNC o adolygu Trwyddedau Amgylcheddol mewn GTDG mewn ardaloedd yr effeithir arnynt wedi dechrau ar ddiwedd cyfnod monitro blwyddyn 11 yr AMB (ac wedi'i gwblhau wedyn) ac yn y rhan fwyaf o achosion mae wedi cadarnhau bod gallu o hyd i dderbyn datblygiad pellach mewn GTDG o fewn terfynau trwydded newydd. Mae hyn yn lleddfu'r cyfyngiad yn y tymor byr i'r tymor canolig, ond yn y tymor hir bydd angen dod o hyd i atebion eraill i ganiatáu i ddatblygiad barhau pan gyrhaeddir y terfynau capasiti newydd.

Fel arfer, mae'r casgliadau o AMB yn cael eu hadrodd yn ôl i Fforwm Asiantau Sir Benfro, ond ni ddigwyddodd hyn ar gyfer AMB Blynyddoedd 9 neu 10 oherwydd prinderau staff difrifol a'r angen i flaenoriaethu adolygiad o'r CDLI. Fodd bynnag, mae un o'r prif bryderon, sy'n ymwneud â'r lefelau llygredd ffosffad mewn afonydd gwarchodedig yn Sir Benfro a'i oblygiadau ar gyfer datblygiad yn y dyfodol, wedi cael ei drafod yn y Fforwm Asiantau hwnnw yn ystod cyfnodau AMB blynyddoedd 10 ac 11. Hysbysir y Fforwm Asiantau hefyd o hyd am y cynnydd tuag at ailadrodd cam Adneuo proses adolygu'r CDLI.

Atodiad 1 – Fframwaith Monitro'r CDLI

Data Ffynhonnell: Monitro Ceisiadau Cynllunio yn Gyflym oni nodir yn wahanol mewn troednodiadau.

Nid yw nifer o Geisiadau Cynllunio a bennir yn gyffredin gan yr Awdurdod wedi'u cynnwys yn yr AMB gan eu bod yn amhriodol at ddibenion yr adroddiad hwn, gan gynnwys:

AG – Hysbysiadau Amaethyddol

HG - Gwrychoedd

CA – Ardaloedd Cadwraeth

Pr Notf – Hysbysiadau Blaenorol

CLOPUD - Tystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon Arfaethedig

EIA – Asesiad o Effaith Amgylcheddol

DC - Cyflawni Amodau

Diwygiadau Adran 73

TF – Cwmpo Coed

LB – Adeiladau Rhestredig

AD – Hysbysebion

OHL – Llinellau Uwchben

CLD - Tystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon

HS – Sylwedd Peryglus

Diwygiadau amherthnasol i geisiadau

Diwygiadau Adran 73 ôl-weithredol

Dangosydd CDLI	Targed	Sbardun	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022 - 23	2023- 24
Cyfanswm y Ceisiadau Cynllunio a benderfynwyd o dan y CDLI (ac eithrio Trin Coed, Datblygu Amaethyddol, Adran 73 ac Adeiladau Rhestredig):	-		Cyfanswm: 749 Cymeradwywyd: 665 Gwrthodwyd: 82	Cyfanswm: 859 Cymeradwywyd: 785 Gwrthodwyd: 74	Cyfanswm: 681 Cymeradwywyd: 614 Gwrthodwyd: 67	Cyfanswm: 641 Cymeradwywyd: 589 Gwrthodwyd: 52	Cyfanswm: 639 Cymeradwywyd: 554 Gwrthodwyd: 85	Cyfanswm: 649 Cymeradwywyd: 564 Gwrthodwyd: 85	Cyfanswm: 859 Cymeradwywyd: 715 Gwrthodwyd: 76 Cymeradwywyd yn Rhannol / Gwrthodwyd yn Rhannol: 68	Cyfanswm: 546 Cymeradwywyd: 495 Gwrthodwyd: 51	Cyfanswm: 728 Cymeradwywyd yn ddiamed: 2 Cymeradwywyd yn amodol: 626 Cymeradwywyd yn Rhannol / Gwrthodwyd yn Rhannol: 3 Gwrthodwyd: 97	Cyfanswm: 887 Cymeradwywyd yn ddiamed: 44 Cymeradwywyd yn amodol: 643 Cymeradwywyd yn Rhannol / Gwrthodwyd yn Rhannol: 77 Gwrthodwyd: 123	Cyfanswm: 822 Cymeradwywyd yn ddiamed: 36 Cymeradwywyd yn amodol: 569 Cymeradwywyd yn Rhannol / Gwrthodwyd yn Rhannol: 83 Gwrthodwyd: 134
Amcan Strategol: Lliniaru ac ymateb i her newid yn yr hinsawdd (A)													
(Craidd) Faint o ddatblygiad (yn ôl categori datblygu paragraff 5.1 TAN 15) a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 ac fel arall sydd heb fodloni holl brofion TAN 15 (paragraff 6.21 – v).*	Mae datblygiad ym mharthau C1 a C2 yn unol â darpariaethau TAN 15	Mwy nag 1 gymeradwyaeth o fewn blwyddyn o ddatblygu ym mharthau C1 a C2 yn groes i ddarpariaethau TAN 15.	5	0	0	0	0	0.29 ha wedi'i gymeradwyo at ddefnydd amhreswyl ym mharth C1 0.48 ha wedi'i gymeradwyo at ddefnydd amhreswyl ym mharth C2 Dim cymeradwyae thau preswyl ym mharthau C1 neu C2. 1 uned wedi'i gwrthod ym mharth C2.	0.05 ha wedi'i gymeradwyo at ddefnydd amhreswyl ym mharth C1 5.6 ha wedi'i gymeradwyo at ddefnydd amhreswyl ym mharth C2 Cymeradwywyd 0.3ha o dir o fewn parth llifogydd C1/C2, ond roedd 0.25ha o hwn ar gyfer ailddatblygu Marina Aberdaugledda u	1	0	1	1
Crynodeb o Amcan Strategol: Lliniaru ac ymateb i her newid yn yr hinsawdd (A): Ym mlynnyddoedd 1 i 5 yr AMB, roedd pob cais parth llifogydd yn bodloni gofynion TAN 15 / polisi GN.1 y CDLI (maen prawf 7). Roedd hyn yn adlewyrchu parhad o arferion gwaith da gan Swyddogion Rheoli Datblygu. Ar gyfer blwyddyn 6, newidiodd y dull adrodd, i adlewyrchu gofynion SDI, fel y cofnodwyd uchod. Roedd y canlyniadau ar gyfer AMB blwyddyn 8 yn cynnwys un cais yn y gorlifdir, a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio. Adroddwyd i'r Pwyllgor Cynllunio nad oedd yn cydymffurfio â GN.1 (7) a TAN 15 ond rhoddwyd mwy o bwyslais i ystyriaethau perthnasol yn ymwneud ag adfywio canol y dref. Dangosodd y canlyniadau ar gyfer AMB blwyddyn 9 fod yr holl geisiadau yn cydymffurfio â gofynion TAN 15 / polisi GN.1 y CDLI (maen prawf 7). Ym mlwyddyn 10 yr AMB, roedd un cynnig a ganiatawyd ar gyfer cynnig preswyl ym mharth llifogydd C2. Roedd hwn ar gyfer trosi tri llawr uchaf eiddo yng nghanol y dref yn dair fflat un ystafell wely. Er ei fod yn groes i GN1 (maen prawf 7) a TAN 15, cafodd y cynnig ei ganiatáu oherwydd ei gyfraniad cadarnhaol at adfywio canol y dref. (Cyfeiriadau 21/1003/PA a 21/1024/LB). Ym mlwyddyn 11 yr													

Dangosydd CDLI	Targed	Sbardun	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022 - 23	2023- 24
AMB, roedd un cynnig a ganiatawyd ar gyfer cynnig defnydd cymysg ym mharth llifogydd C2 gydag elfen breswyl. Yn yr achos hwn, er bod gwrthdaro â TAN 15 a pholisi GN.1 (7) y CDLI wedi'i nodi, oherwydd bod defnydd hynod agored i niwed yn cael ei gynnig mewn parth perygl llifogydd (defnydd preswyl), cydsyniwyd i'r cynnig yn amodol gan fod CNC wedi cynghori y gellid lliniaru'r perygl llifogydd yn yr achos hwn.													
Amcan Strategol: Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau (I)													
Nifer a chyfran y caniatâd cynllunio tai ar wahanol lefelau o'r hierarchaeth aneddiadau.	Mae 60% o'r caniatâd yn y Trefi Hyb	Caniatâd llai na 50% mewn Trefi Hyb dros gyfnod o 3 blynedd. (Sylwer: nid yw canrannau'n hafal i 100% oherwydd talgrynnu)	Tref Hyb 1,191 (77%)	Tref Hyb 790 (65.3%)	Tref Hyb 356 (39%)	Tref Hyb 259 (37%)	Tref Hyb 317 (52%)	Tref Hyb 149 (69.9%)	Tref Hyb 576 (74.5%)	Tref Hyb 55 (25.6%)	Tref Hyb 60 (38.2%)	Tref Hyb 53 (39%)	Tref Hyb 56 (50.9%)
			Tref Wledig 55 (3.5%)	Tref Wledig 31 (2.6%)	Tref Wledig 43 (5%)	Tref Wledig 27 (4%)	Tref Wledig 110 (18%)	Tref Wledig 1 (0.5%)	Tref Wledig 1 (0.1%)	Tref Wledig 14 (6.5%)	Tref Wledig 5 (3.2%)	Tref Wledig 1 (<1%)	Tref Wledig 0 (0%)
			Canolfan Wasanaeth 14 (0.9%)	Canolfan Wasanaeth 23 (1.9%)	Canolfan Wasanaeth 98 (11%)	Canolfan Wasanaeth 69 (10%)	Canolfan Wasanaeth 32 (5%)	Canolfan Wasanaeth 2 (0.9%)	Canolfan Wasanaeth 35 (4.5%)	Canolfan Wasanaeth 87 (40.5%)	Canolfan Wasanaeth 3 (1.9%)	Canolfan Wasanaeth 0 (0%)	Canolfan Wasanaeth 4 (3.6%)
			Pentref Gwasanaeth 165 (11%)	Pentref Gwasanaeth 303 (25%)	Pentref Gwasanaeth 329 (36%)	Pentref Gwasanaeth 279 (1%)	Pentref Gwasanaeth 117 (19%)	Pentref Gwasanaeth 24 (11.3%)	Pentref Gwasanaeth 120 (15.4%)	Pentref Gwasanaeth 38 (17.7%)	Pentref Gwasanaeth 73 (46.5%)	Pentref Gwasanaeth 68 (50%)	Pentref Gwasanaeth 26 (23.6%)
			Pentref Lleol Mawr 12 (0.8%)	Pentref Lleol Mawr 10 (0.8%)	Pentref Lleol Mawr 22 (2%)	Pentref Lleol Mawr 9 (1%)	Pentref Lleol Mawr 4 (1%)	Pentref Lleol Mawr 1 (0.5%)	Pentref Lleol Mawr 3 (0.4%)	Pentref Lleol Mawr 3 (1.4%)	Pentref Lleol Mawr 5 (3.2%)	Pentref Lleol Mawr 1 (<1%)	Pentref Lleol Mawr 4 (3.6%)
			Pentref Lleol Bach 15 (1%)	Pentref Lleol Bach 15 (1.2%)	Pentref Lleol Bach 10 (1%)	Pentref Lleol Bach 0 (0%)	Pentref Lleol Bach 1 (0.5%)	Pentref Lleol Bach 4 (1.9%)	Pentref Lleol Bach 2 (0.3%)	Pentref Lleol Bach 1 (0.4%)	Pentref Lleol Bach 0	Pentref Lleol Bach 1 (1%)	Pentref Lleol Bach 0 (0%)
			Cefn Gwlad Agored 95 (6%)	Cefn Gwlad Agored 38 (3.1%)	Cefn Gwlad Agored 64 (7%)	Cefn Gwlad Agored 48 (7%)	Cefn Gwlad Agored 27 (4.5%)	Cefn Gwlad Agored 32 (15%)	Cefn Gwlad Agored 37 (4.8%)	Cefn Gwlad Agored 17 (7.9%)	Cefn Gwlad Agored 11 (7%)	Cefn Gwlad Agored 14 (10%)	Cefn Gwlad Agored 20 (18.2%)
Ardal o dir wedi'i diogelu ar gyfer cynigion cysylltiedig â thrafnidiaeth a gollwyd i ddatblygiad.	0%	Bydd angen ymchwilio i unrhyw golled	0	0	0	0	0	0	0 (ond gan nodi mân effaith 14/0158/PA)	0 (ond gan nodi mân effaith 14/0158/PA)	0 (ond gan nodi mân effaith 14/0158/PA)	0 (ond gan nodi mân effaith 14/0158/PA)	0 (ond gan nodi mân effaith 14/0158/PA)
Newid net yn narpariaeth cyfleusterau cymunedol o ganlyniad i ganiatâd cynllunio (ardal a math) 4.	I gynnal cyfleusterau allweddol	Colli dros 3 chyfleuster cymunedol o fewn unrhyw gyfnod o 3 blynedd.	Cyfleusterau newydd a enillwyd: Neuaddau Cymunedol: 0.39Ha Tŷ Tafarn:	Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd: Neuaddau Cymunedol enillwyd	Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd Tai tafarn collwyd 0.09Ha	Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd Neuaddau Cymunedol enillwyd	Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd Neuaddau Cymunedol collwyd	Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd Neuaddau Cymunedol enillwyd	Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd Neuaddau Cymunedol enillwyd 0.13	Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd (Ha) Neuaddau Cymunedol collwyd 0.04	Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd (Ha) Neuaddau Cymunedol 0 Adeiladau	Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a	Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd (Ha) Neuaddau Cymunedol a enillwyd: 0

Dangosydd CDLI	Targed	Sbardun	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022 - 23	2023- 24
			1.35Ha Cyfleusterau iechyd:1.30Ha a Cyfleusterau addysgol: 3.91Ha Mannau Agored/Ardal oedd awyr agored: 2.52Ha Arall: 0.15Ha Dim cyfleusterau wedi'u colli'n llwyr	0.11Ha collwyd 0.03Ha Tŷ Tafarn: enillwyd 0.13Ha Iechyd: enillwyd 0.04Ha Cyfleusterau addysgol: enillwyd 0.63Ha collwyd 0.06Ha Mannau Agored/Ardalo edd awyr agored: 0 Arall: enillwyd 0.32Ha collwyd - 0.17Ha Adeiladau crefyddol enillwyd 0.90Ha collwyd - 0.29Ha	Adeiladau crefyddol collwyd 0.53Ha Siop gyfleustra leol enillwyd 0.01Ha Chwaraeon a hamdden: Enillwyd 0.88ha collwyd 0.16Ha Caffi collwyd 0.02Ha Addysgol enillwyd 0.02Ha collwyd 0.26Ha	0.97Ha Adeiladau crefyddol collwyd 0.05Ha Cyfleusterau Addysgol enillwyd 1.11Ha Mannau Agored/Ardalo edd Awyr Agored enillwyd 0.02Ha Chwaraeon a Hamdden enillwyd 0.28Ha Cyfleusterau lechyd enillwyd 0.31Ha collwyd 0.80Ha	0.04Ha Adeiladau crefyddol collwyd - 0.03Ha Cyfleusterau Addysgol collwyd 0.036Ha Cyfleusterau lechyd enillwyd 0.005Ha Tai Tafarn collwyd 0.03Ha.	0.2Ha Adeiladau crefyddol 0 Cyfleusterau Addysgol 0 Cyfleusterau lechyd enillwyd 0.09Ha Tai Tafarn 0 Chwaraeon a hamdden enillwyd 0.19 Siop leol enillwyd 0.03ha	Adeiladau crefyddol collwyd 0.22 Cyfleusterau Addysgol 0 Cyfleusterau iechyd 0 Tai Tafarn collwyd 0.09 Chwaraeon a hamdden enillwyd 0.86 Siop leol 0 (Arall (gorsaf heddlu collwyd 0.04; banc collwyd 0.02; angladd enillwyd 0.5, mynwent enillwyd 0.97)	Adeiladau crefyddol collwyd 0.29 Cyfleusterau Addysgol 0 Cyfleusterau lechyd collwyd 0.07 Tai Tafarn collwyd 0.07 Chwaraeon a hamdden 0 Siop leol 0 (collwyd ac enillwyd 0.03 ha)	crefyddol 0 Cyfleusterau Addysgol enillwyd 0.29ha a chollwyd 0.18ha Cyfleusterau lechyd 0 Tai Tafarn 0 Chwaraeon a hamdden enillwyd 0.05 Siop leol 0	gollwyd (Ha) ² Neuaddau Cymunedol 0 Adeiladau crefyddol 0 Cyfleusterau Addysgol 0 Cyfleusterau lechyd enillwyd 0.14ha Tai Tafarn 2 Chwaraeon a hamdden enillwyd 0.18ha Siop leol 0	Adeiladau crefyddol 0 ha Cyfleusterau Addysgol enillwyd 0.02 ha Cyfleusterau Addysgol enillwyd 0.23 ha Tŷ tafarn collwyd 0.06 ha ac enillwyd 0.09 ha Uned Manwerthu y tu allan i ganol tref a gollwyd: 0 ha Manwerthu yng nghanol tref a gollwyd: 0.01 ha Manwerthu yng nghanol tref enillwyd 0.04 ha Manwerthu y tu allan i ganol tref enillwyd 1.24 ha Rhandiroedd enillwyd 0.37 ha Parc cyhoeddus enillwyd 0.11 ha Darpariaeth

²Sylwer: Os yw cyfleuster cymunedol wedi newid o'r naill fath i'r llall nid yw hyn yn cael ei ystyried yn gollod. Mae cyfleusterau newydd yn cynnwys estyniadau i ardaloedd safle presennol (ac nid estyniadau i adeiladau o fewn ardal safle presennol) a newidiadau defnydd.

Dangosydd CDLI	Targed	Sbardun	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022 - 23	2023- 24
													chwaraeon enillwyd 4.67 ha Amgueddfa enillwyd 0.01 ha Tir y cyhoedd (mannau agored) enillwyd 0.23 ha Canolfan ymwelwyr enillwyd 0.17 ha

Dangosydd CDLI	Targed	Sbardun	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022 - 23	2023- 24
Lefel y gwasanaethau o fewn aneddiadau gwledig.	Nid yw gwasanaethau mewn aneddiadau o fewn yr hierarchaeth aneddiadau yn llawer is nag yn Arolwg Cyfleusterau Gwledig 2008	Monitro yn yr Adolygiad Cynllun (2017) – byddai angen ymchwiliad pellach ar newid o 10% yn nifer yr aneddiadau sy'n cyrraedd lefel pentref gwasanaeth. Nid yw'r sbardun wedi'i gyrraedd. Gweler Papur Cefndir CDLI 2 Adroddiad Arolwg Cyfleusterau Gwledig 2020 gyda chywiriadau yn 2024. Sail Dystiolaeth CDLI2 - Cyngor Sir Penfro											
(Craidd) Capasiti (MW) datblygiadau ynni adnewyddadwy a ganiatawyd.	Dim targed ond gellir gosod un at ddibenion monitro CDLI, gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir ym Mhecyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy LIC	Dim sbardun wedi'i nodi.	108.427MW o gapasiti wedi'i ganiatáu	68.60 MW o gapasiti wedi'i ganiatáu.	34.77 MW o gapasiti wedi'i ganiatáu.	6.11 MW o gapasiti wedi'i ganiatáu.	11.00 MW o gapasiti wedi'i ganiatáu.	0.89 MW o gapasiti wedi'i ganiatáu.	3.60 MW o gapasiti newydd wedi'i ganiatáu.	0.40 MW o gapasiti newydd wedi'i ganiatáu.	10.71 MW o gapasiti newydd wedi'i ganiatáu (ynghyd â 3.87 MW o gapasiti pellach wedi'i ganiatáu eisoes, ond gyda hyd oes wedi'i estyn o 25 i 40 mlynedd)	5.39 MW o gapasiti newydd wedi'i ganiatáu	9.26 MW o gapasiti newydd wedi'i ganiatáu
Faint o le agored (m2) a ganiatawyd mewn perthynas â nifer cyffredinol yr anheddau a ganiatawyd.	Darparu mannau agored cyhoeddus ar gyfradd o fwy na 25% yn is na'r gofyniad safonol (fel y nodir yn y CCA)	Darparu mannau agored cyhoeddus ar gyfradd o fwy na 35% yn is na'r gofyniad safonol (fel y nodir yn y CCA) yn yr Adolygiad Cynllun.	Mae yna safonau gwahanol, yn seiliedig ar wahanol fathau o fannau agored. Er symlrwydd defnyddiwyd y safonau lle chwarae anffurfiol. Mae'r rhain yn gofyn bod 5.5m2 y pen yn cael ei ddarparu. Yn seiliedig ar gyfradd feddiannaeth gyfartalog o 2.2 o bobl fesul aelwyd (a dybir yn y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio), mae hyn yn cyfateb i ofyniad o 12.1m2 fesul annedd o le agored anffurfiol. Erbyn 2018 mae 60,904m2 wedi'i ddarparu (wedi'i rannu â 4583 o anheddau), mae hyn yn rhoi cyfradd o 13.2 m2 fesul annedd.				2019/2020 – cymeradwywyd 777 o anheddau. Cymeradwywyd 14,700 metr sgwâr o le agored = 18.9 metr sgwâr fesul annedd			2020/2021 - caniatawyd 10,220 metr sgwâr	2021 – 2022 – ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau tai mawr yn ystod y cyfnod monitro.	Cymeradwywyd 4180 metr sgwâr o le agored.	Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau tai mawr yn ystod y cyfnod monitro.
Crynodeb o Amcan Strategol: Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau (I):													
Gostyngwyd nifer a chyfran y caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl newydd (lle roedd cynnydd net o annedd) yn sylweddol ar gyfer cyfnod AMB 2020-2021, 2021-2022 a 2022-2023. Yn ystod y cyfnod hwn, cyrhaeddwyd y sbardun hefyd, gan fod nifer yr unedau preswyl a ganiatawyd mewn Trefi Hyb wedi disgyn islaw'r trothwy o 50%, er bod adolygiad o'r cynllun eisoes wedi dechrau. Mae nifer yr unedau a ganiatawyd wedi aros yn isel sef 112 o unedau, er bod 50% mewn Trefi Hyb ar gyfer AMB 2023-2024.													
Nid oes unrhyw ardaloedd o dir wedi'u diogelu ar gyfer cynigion cysylltiedig â thrafnidiaeth wedi'u caniatáu ar gyfer math arall o ddatblygiad yn ystod AMB blwyddyn 10, ac eithrio ym Marina Aberdaugleddau, fel y disgrifir isod. Mae nifer o'r cynlluniau a ddiogelwyd bellach wedi'u hadeiladu, neu wedi'u gweithredu'n rhannol. Mae gan eraill ganiatâd cynllunio ond disgwylir eu hadeiladu, a rhai o'r rhain yn cael eu cyflwyno fel elfennau o gynlluniau adfywio sy'n cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau tir. Mae Cynllun Gwelliannau Redstone Cross a Ffordd Osgoi Llanddewi Felfre Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo. Ar safle Blackbridge, roedd cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol													

Dangosydd CDLI	Targed	Sbardun	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022 - 23	2023- 24
(DNS) am gyfleuster biomas o bosibl yn effeithio ar lwybr trafnidiaeth a ddiogelir (er ei fod yn un y bwriadwyd iddo ei hwyluso). Fodd bynnag, gwrthodwyd hyn gan Weinidogion Cymru yn gynnar ym mlwyddyn 6 yr AMB. Mae cynllun adfywio ym Marina Aberdaugleddau yn effeithio ychydig bach ar gynnig cyfnewidfa fysiau / rheilffyrdd Aberdaugleddau ond ni fydd yn ei atal nac yn peryglu ei weithredu (cais 14/0158/PA, a gymeradwywyd ar 01/11/19). Cymeradwywyd chwe chais sy'n ymwneud â cholli cyfleusterau cymunedol yn ystod cyfnod monitro blwyddyn 11. Mewn tri achos, canfuwyd bod y cynigion yn bodloni gofynion polisi GN.33 ac yn y tri achos arall, er nad oedd sôn penodol am fater GN.33, roedd y Cyfleuster Cymunedol eisoes wedi'i golli beth amser yn ôl ac roedd y cynigion yn ceisio eu hailddefnyddio ar ôl cyfnod o beidio â defnyddio'r adeiladau dan sylw. Yn un o'r achosion hyn, mae cyfleuster newydd wedi'i ddarparu ar safle gwahanol. Cymeradwywyd dau gais am gyfleusterau cymunedol newydd ym Mhenfro – ar gyfer rhandiroedd ger Grove Way ac am ardd gyhoeddus yn Devon Drive. Mewn mannau eraill cafwyd ceisiadau dilynol ar wahanol safleoedd lle roedd caniatâd yn ymwneud â chyfleusterau cymunedol newydd wedi'i roi o'r blaen – er enghraifft yn yr Hen Ysgol yn Arberth, yn yr ysgol gynradd Gymraeg newydd ym Mhenfro, ar gaeau chwaraeon Kiln Park yn Arberth, yn Fferm Kiln Park, hefyd yn Arberth ac yng Nghlwb Hwyllo Neyland. Caniatawyd amrywiaeth o gynigion sy'n gwella cyfleusterau cymunedol a oedd yn bodoli eisoes – er enghraifft y ward adleoli modiwlaid newydd yn Ysbyty Llwynhelyg (a gymeradwywyd hefyd i ddechrau yn ystod cyfnod AMB cynharach), yr uned ystafell ddosbarth fodiwlaid newydd yn Ysgol Cosheston, y sied storio newydd yng Nghae Ras Hwlffordd, cadw cyfleusterau a chael cyfleusterau newydd yng nghlybiau criced Doc Penfro a Hill Mountain, cyfleuster newid yng Nghilgeti a lleoliad saethyddiaeth yn Nhafarn Ysbyty. Yng Nghanol Tref Hwlffordd, collwyd uned fanwerthu, ond daeth amgueddfa yn ei lle, felly mae un cyfleuster cymunedol yn disodli un arall yn yr achos hwn. Ar hen safle'r llyfrgell yn Hwlffordd, bydd cynnig aildefnyddio at ddibenion swyddfa hefyd yn cynnwys caffi a defnyddiau cymunedol ategol. Mae cynigion Glan Cei'r Gorllewin, hefyd yn Hwlffordd, yn cynnwys cymysgedd o gynigion preswyl, trafnidiaeth a mannau agored. Mae cynnig adfywio mawr bellach ar y gweill yng Nghei'r De, Penfro, a fydd yn cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau cymunedol. Yng Nghastell Hwlffordd, mae atyniad newydd i ymwelwyr wedi'i ganiatáu ac mae'n cael ei weithredu. Mewn mannau eraill mae cynigion manwerthu newydd wedi'u caniatáu mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys yn Gumfreston (marchnad ffermwyr dan do ac ysgubor fasnachu), ac yn Sgwâr Pen-y-bont, Hwlffordd (dwy uned fanwerthu newydd). Ar hen safle Garej yn y Cwm, Abergwaun, bydd addasiad preswyl hefyd yn cynnwys cynnig dosbarth defnydd A3 ar lefel y llawr gwaelod. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ond mae'n rhoi blas ar yr amrywiaeth o ddefnyddiau cymunedol a ganiatawyd yn ddiweddar. Bu lefelau'r gwasanaethau o fewn aneddiadau yn destun monitro fel rhan o'r Adolygiad Cynllun. Gweler Adroddiad Arolwg Cyfleusterau Gwledig 2020 yn https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-aail-dystiolaeth. Ar gyfer Ynni Adnewyddadwy, yn ystod AMB blwyddyn 11, y prosiect mwyaf a ganiatawyd yw fferm solar 9 MW yn Cosheston. Mae prosiectau ynni adnewyddadwy eraill a ganiatawyd ar raddfa lai ac yn bennaf ar gyfer araeau solar ffotofoltâig bach neu baneli solar ar doeau. Nid yw rhai o'r cynlluniau llai o faint yn darparu ffigur capasiti ynni. Darparodd CSP hefyd Adroddiad o'r Effaith Leol ar gais DNS ar gyfer cynnig 3 tyrbin gwynt ym Mharc Ynni'r Ddraig yn ystod cyfnod AMB blwyddyn 11. Gwrthodwyd cynnig i gael gwared ar dyrbin gwynt presennol a'i ddisodli ag un mwy o faint (530kW). Roedd capasiti ynni adnewyddadwy newydd a ganiatawyd yng mlwyddyn 11 yr AMB yn 9.26 MW, ynghyd â'r capasiti a gynhyrchir gan ychydig o gynlluniau solar ar raddfa fach lle nad oedd capasiti wedi'i nodi. Ers AMB 4, bu'r capasiti newydd a ganiatawyd ar raddfa gymedrol o'i gymharu â'r hyn a gafodd ei ganiatáu ym mlynnyddoedd cynnar y CDLI. Mewn perthynas â Mannau Agored, mabwysiadwyd y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio sy'n cyflwyno safonau ar 12 Medi 2016. Mae'r dangosydd monitro yn aneglur gan nad yw'n dadansoddi gwahanol ofynion gwahanol fathau o fannau agored a dylid ystyried hyn yn yr Adolygiad Cynllun. Mae'r dangosydd hefyd yn gofyn am gymharu faint o fannau agored (m2) a ganiatawyd mewn perthynas â nifer cyffredinol yr anheddau a ganiatawyd, pan mai dim ond ar safleoedd o fwy na 33 o anheddau y mae mannau agored yn ofynnol. Mae angen cyfraniadau ariannol tuag at ddarparu mannau agored oddi ar y safle ar gyfer safleoedd o 10 neu fwy o unedau. Nid oes unrhyw geisiadau preswyl mawr wedi'u cymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro hwn a fyddai'n sbarduno darpariaeth mannau agored ar y safle. Cymeradwywyd tri chais sy'n gwella'r ddarpariaeth mannau agored hamdden bresennol trwy ddarparu cyfleusterau ychwanegol mewn meysydd hamdden.													
Amcan Strategol: Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygu sy'n gysylltiedig ag ynni a phorthladdoedd (E)													
Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer datblygu cyflogaeth ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn ardaloedd porthladd a nodwyd (Blackbridge, Aberdaugleddau, hen safle ffatri Dewhirst Wdig a'r Parrog yn Wdig).	100% erbyn diwedd cyfnod y Cynllun	50% heb ganiatâd cynllunio yn yr Adolygiad Cynllun (2017). Naratif blynyddol i ddisgrifio cynnydd tuag at gyflawni.	Blackbridge 0	Blackbridge 0	Blackbridge 0	Blackbridge 0	Blackbridge 0	Blackbridge 0	Blackbridge 0	Blackbridge 0	Blackbridge 0	Blackbridge 0	Blackbridge 0

Dangosydd CDLI	Targed	Sbardun	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022 - 23	2023- 24
			Hen safle ffatri Dewhirst Wdig 0	Hen safle ffatri Dewhirst Wdig 0	Hen safle ffatri Dewhirst Wdig 0	Hen safle ffatri Dewhirst Wdig 0	Hen safle ffatri Dewhirst Wdig 0	Hen safle ffatri Dewhirst Wdig 0	Hen safle ffatri Dewhirst Wdig 0	Hen safle ffatri Dewhirst Wdig 0	Hen safle ffatri Dewhirst Wdig 0	Hen safle ffatri Dewhirst Wdig 0 (rhan o'r safle wedi'i chymeradwyo'n amodol ar gyfer datblygiad preswyl arbenigol ar gyfer pobl hŷn ar 09/08/22)	Hen safle ffatri Dewhirst Wdig 0 (rhan o'r safle wedi'i chymeradwyo'n amodol ar gyfer datblygiad preswyl arbenigol ar gyfer pobl hŷn ar 09/08/22)
			Parrog Wdig 0	Parrog Wdig 0	Parrog Wdig 0	Parrog Wdig 0	Parrog Wdig 0	Parrog Wdig 0	Parrog Wdig 0	Parrog Wdig 0	Parrog Wdig 0	Parrog Wdig 0	Parrog Wdig 0
Cynnydd tuag at gyflawni cynlluniau trafndiaeth a ddiogelwyd.	Y cyfan wedi'i gyflawni erbyn 2021	Os nad oes cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer prosiect erbyn Adolygiad y Cynllun (2017). Cafodd y rhestr o gynlluniau trafndiaeth a ddiogelwyd ei hadolygu'n gynhwysfawr ar y cyd â pharatoi'r fersiwn Adneuo cyntaf o CDLI 2 ac mae'n cael ei hadolygu ymhellach ar gyfer CDLI 2, Cynllun Adnau 2. Mae Atodiad 4 o Gynllun Adnau 1 CDLI 2 o 2020 yn nodi manylion y cynlluniau trafndiaeth hynny y bwriedir eu diogelu drwy'r Cynllun newydd, ond yn nodi y bydd hyn yn cael ei ddiwygio ar gyfer CDLI 2, Cynllun Adnau 2. Mae 7 cynllun wedi'u rhestru i'w diogelu yn CDLI 2, Cynllun Adnau 1, ynghyd â'r rhaglen gysylltiedig, ffynhonnell gyllid ar gyfer gweithredu ac amserlen gyflawni ddisgwyliedig. Mae nifer y cynlluniau a ddiogelwyd yn debygol o leihau ar gyfer CDLI 2, Cynllun Adnau 2 a bydd manylion yn cael eu cofnodi yn yr AMB nesaf. I grynhoi, mae sefyllfa 17 cynllun trafndiaeth a ddiogelwyd CDLI 1 fel a ganlyn: 1) Yr A40 Llanddewi Felfre i Benblewin – gweithredu ar y gweill, wedi'i ddwyn ymlaen i CDLI 2, Cynllun Adnau 1, cynllun sydd bellach wedi'i estyn i'r gorllewin i Redstone Cross (i'r gogledd o Arberth). 2) Gwella'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr – heb ei weithredu ac heb ei gario ymlaen i CDLI 2. 3) Rhwydwaith Dosbarthu'r Gogledd – cyswllt Bulford Road – wedi'i gwblhau ac felly ni chafodd ei gario ymlaen i CDLI 2. 4) Prosiect Adfywio Cymunedol Penfro Cam 1 a Cham 2 – heb ei weithredu ac ni chafodd ei gario ymlaen i CDLI 2. 5) Gwella mynediad Blackbridge a ffordd osgoi Waterston – heb ei weithredu, wedi'i gario ymlaen i CDLI 2, Cynllun Adnau 1, am ei fod yn gysylltiedig â chynnig cyflogaeth mawr, ond bydd yr angen am y cynllun yn cael ei ailystyried ar gyfer CDLI 2, Cynllun Adnau 2. 6) Llwybr Strategol y De – gwella coridor yr A477 Mynegbost Nash i Safle Ynni – wedi'i weithredu i raddau helaeth, felly ni chafodd y rhan fwyaf ei chario ymlaen i CDLI 2, ond cafodd un elfen heb ei gweithredu, sef Gwelliant Well Hill, ei chario ymlaen i CDLI 2, Cynllun Adnau 1 ac mae'n debygol o gael ei chadw ar gyfer CDLI 2, Cynllun Adnau 2. 7) Canolbwynt Bysiau Abergwaun – wedi'i weithredu ar y cyd ag adfywio canol y dref ac felly ni chafodd ei gario ymlaen i CDLI 2. 8) Cyfnewidfa trenau a bysiau Gorsaf Drenau Wdig – wedi'i gweithredu ac heb ei chario ymlaen i CDLI 2. 9) Cyfnewidfa trenau a bysiau Aberdaugleddau – heb ei gweithredu ond wedi'i chario ymlaen i CDLI 2, Cynllun Adnau 1. 10) Cyfnewidfa trenau a bysiau Doc Penfro – wedi'i gweithredu'n rhannol, gydag elfen weddilliol (maes parcio a chysylltiadau i gerddwyr) yn cael ei chario ymlaen i CDLI 2, Cynllun Adnau 1, ond ailystyriar hyn ar gyfer CDLI 2, Cynllun Adnau 2. 11) Gwella gorsaf drenau Clunderwen – wedi'i gwblhau a'i gario ymlaen i CDLI 2. 12) Parcio a theithio Dinbych-y-pysgod – heb ei weithredu, heb ei gario ymlaen i CDLI 2. 13) Gwaith dargyfeirio a gwella'r B4318 Gumfreston i Ddinbych-y-pysgod cam 3 – heb ei weithredu ac ni chafodd ei gario ymlaen i CDLI 2. System rhybuddio llifogydd wedi'i gweithredu yn lle dargyfeirio ffordd. 14) Adlinio B4320 Cil-maen – heb ei weithredu, heb ei gario ymlaen i CDLI 2. 15) A40 Stryd Fawr i'r A487 Stryd y Gorllewin, cyswllt 'Simneiau', Abergwaun – wedi'i weithredu ac heb ei gario ymlaen i CDLI 2. 16) Llwybr Cyd-ddefnyddio Hwlfordd i Arberth – wedi'i weithredu'n rhannol a'i gario ymlaen i CDLI 2, Cynllun Adnau 1.											

Dangosydd CDLI	Targed	Sbardun	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022 - 23	2023- 24
		17)	Prosiect Canol Tref Cynaliadwy Hwlffordd – wedi'i ddisodli gan gynlluniau mwy diweddar, gyda chyfnewidfa Bysiau a Threfnau Hwlffordd wedi'i hychwanegu at gynlluniau a ddiogelwyd CDLI 2, Cynllun Adnau 1. Mae gwaith dymchwel y maes parcio aml-lawr wedi'i gwblhau a bydd gorsaf fysiau newydd yn cael ei hadeiladu maes o law. Bydd manylion y cynigion cyfnewidfa fysiau a threnau wedi'u diogelu yn cael eu diweddarau ar gyfer CDLI 2, Cynllun Adnau 2.										
Crynodeb o Amcan Strategol: Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygu sy'n gysylltiedig ag ynni a phorthladdoedd (E):													
Nid oes gan y safle cyflogaeth strategol yn Blackbridge ganiatâd cynllunio cyfredol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Mae'r safle hwn bellach yn eiddo i gwmni datblygu Egnedol, a gynigiodd gyfleuster biomas ynghyd â nifer o brosiectau cysylltiedig ar gyfer y safle a ddyrannwyd ac ardaloedd o dir sylweddol y tu hwnt i hyn. Cyrhaeddodd y cynnig hwn y cam ymgeisio ac fe'i dosbarthwyd fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Fodd bynnag, gwrthododd Gweinidogion Cymru y cais ar 26/06/18. Bydd CSP yn parhau i fonitro'r cynnydd tuag at ddatblygu'r safle cyflogaeth strategol allweddol hwn.													
Nid yw'r un o'r ddau safle yn Wdig wedi denu cais cynllunio sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ers mabwysiadu'r CDLI - fodd bynnag, mae cais preswyl wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar ar ran o hen safle Ffatri Dewhirst, ar gyfer datblygiad preswyl arbenigol i bobl hŷn.													
Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro defnydd o safleoedd cyflogaeth strategol. Mae'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach wedi'i actifadu ac mae'r adolygiad o'r dyraniadau hyn yn digwydd ar y cyd â pharatoi CDLI 2.													
O ran monitro cynllun trafnidiaeth, ni fu fawr ddim newid ers yr AMB diwethaf, ac eithrio gweithredu parhaus gwaith Gwella Redstone Cross a Ffordd Osgoi Llanddewi Felffre (Llywodraeth Cymru), dymchwel y maes parcio aml-lawr yn Hwlffordd a pharatoi ar gyfer adeiladu gorsaf fysiau newydd ar y safle hwnnw. Mae hyn yn ffurfio elfen o gynigion ailddatblygu canol y dref yn y Dref Sirol. Diweddarwyd y testun adrodd i gyfeirio at y tebygolrwydd y bydd CDLI 2, Cynllun Adnau 2 yn diweddarau'r sefyllfa ddiogelu ar rai safleoedd o'i gymharu â CDLI 2, Cynllun Adnau 1 yn 2020.													
Amcan Strategol: Cefnogi datblygiad rôl unigryw trefi Sir Benfro, yn enwedig o fewn Hyb Aberdaugleddau (F) ac Adfywio canol trefi a Chynnal a gwella'r economi wledig a threfol (G)													
Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisiau SP 4, SP 14, GN.12, GN.14	0	Cymeradwywyd mwy na 4 cais cynllunio yn groes i un polisi dros 4 blynedd.	SP 4 0	SP 4 0	SP 4 0	SP 4 0	SP 4 0	SP 4 0	SP 4 0	SP 4 0	SP 4 0	SP 4 0	SP4 0
			SP 14 0	SP 14 0	SP 14 0	SP 14 0	SP 14 0	SP 14 0	SP 14 0	SP 14 0	SP 14 0	SP 14 0	SP14 0
			GN.12 0	GN.12 0	GN.12 0	GN.12 2	GN.12 1	GN.12 0	GN.12 0	GN.12 0	GN.12 3	GN.12 2	GN12 0
			GN.14 0	GN.14 0	GN.14 0	GN.14 0	GN.14 0	GN.14 0	GN.14 0	GN.14 0	GN.14 0	GN.14 0	GN14 0

Dangosydd CDLI	Targed	Sbardun	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022 - 23	2023- 24
